



AWDURDOD YR HEDDLU NIWCLEAR SIFIL

CYNLLUN YR IAITH GYMRAEG
1 Ebrill 2008

Wedi ei baratoi yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government



CYFLWYNIAD	3
CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETH	4
DELIO AG AELODAU O'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG	5
EIN HWYNEB CYHOEDDUS	6
GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN	8

Atodiad A

Canllawiau ar ba ddogfennau ddylai fod yn ddwyieithog (neu yn y Gymraeg a'r Saesneg)	11
Eitemau Categori A: i fod yn ddwyieithog (neu yn Gymraeg a Saesneg)	11
Eitemau Categori B: eitemau fydd o bosib yn ddwyieithog gan ddibynnu ar yr amgylchiadau	12
Eitemau Categori C: fel arfer mewn un iaith	12
Rhai canllawiau	13

Atodiad B.....14

Uned Gefnogi Wylfa	14
---------------------------------	----

Atodiad C.....17

Cyfarfodydd Cyhoeddus	17
------------------------------------	----

AWDURDOD HEDDLU NIWCLEAR SIFIL

CYNLLUN YR IAITH GYMRAEG

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil (yr Awdurdod) wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.
2. Mae'r Cynllun yn amlinellu sut y bydd yr Awdurdod yn gweithredu'r polisi hwnnw wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Wrth lunio'r mesurau sy'n cael eu hamlinellu yn y Cynllun, mae'r Awdurdod wedi ystyried yr hyn sy'n briodol dan yr awgylchiadau ac yn rhesymol o ymarferol.
3. Mae'r Cynllun sy'n cael ei gynnig gan yr Awdurdod yn ymgorffori dull gweithredu'r Heddlu Niwclear Sifil (yr Heddlu) ac, yn benodol, dull yr Uned Gefnogi yn Wylfa.
4. Ni chaiff y Cynllun ei newid heb ymgynghori ymlaen llaw â Bwrdd yr Iaith Gymraeg. O bryd i'w gilydd, efallai y bydd yr Awdurdod yn cyflwyno diwygiadau i'r Cynllun i Fwrdd yr Iaith.

Os buasech yn hoffi trafod y Cynllun hwn, cysylltwch yn gyntaf â'r swyddog perthnasol, sef: *The Diversity Officer (Swyddog Amrywiaeth), Civil Nuclear Constabulary Headquarters, Culham Science Centre, Abingdon, OXFORDSHIRE OX14 3DB. Rhif ffôn: 01235 466 570*

Disgrifiad o'r Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil

5. Cafodd yr Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil ei greu o dan Ddeddf Ynni 2004 fel Corff Cyhoeddus An-Adrannol gweithredol (Non- Departmental Public Body, NDPB) gan yr Adran Masnach a Diwydiant (DTI) fel y'i gelwid bryd hynny. (Bellach caiff ei hadnabod fel Yr Adran Menter Busnes a Diwygio, sef, yn Saesneg, *Business Enterprise and Regulatory Reform – BERR*) Caiff aelodau o'r Awdurdod Heddlu eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Ar hyn o bryd, mae gan yr Awdurdod Heddlu Gadeirydd annibynnol, dau aelod annibynnol a phedwar cynrychiolydd o'r diwydiant niwclear.
6. Gwaith yr Awdurdod yw sicrhau bod yr Heddlu Niwclear Sifil (yr Heddlu) yn effeithlon ac effeithiol ac yn cyfarfod â gofynion plismona y cyfranddeiliaid yn y diwydiant niwclear sifil yn unol â'r cyfeiriad strategol a osodir gan yr Awdurdod. Caiff amcanion a thargedau perfformaid ar gyfer yr Heddlu eu cytuno gyda'r Prif Gwnstabl ac yna eu pennu gan yr Awdurdod a'u cyhoeddi yn Y Cynllun Plismona Blynyddol.
7. Amcan allweddol gan yr Awdurdod yw gwirio bod ymgyrchoedd yr Heddlu yn parhau i fod yn effeithiol yn unol â safonau diogelwch a osodir gan y Cyfarwyddwr Diogelwch Niwclear Sifil. Mae'r Awdurdod yn darparu fframwaith ar gyfer rheolaeth strategol gadarn ac atebolrwydd i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod gweithgareddau'r Awdurdod a'r Heddlu yn gynyddol yn fwy agored a thryloyw.
8. Mae Pencadlys yr Awdurdod yn Risley, Sir Gaer. Yn Culham, Sir Rhydychen y mae pencadlys yr Heddlu gyda swyddfeydd llai yn Ardal y Llynnoedd. Mae

Unedau Gweithredu a Chefnogi'r Awdurdod mewn pymtheg lleoliad arall ar draws Lloegr, yr Alban a Chymru. I ddibenion gweithredol, mae'n rhaid defnyddio Saesneg fel iaith busnes swyddogol ar gyfer pob gohebiaeth fewnol o fewn yr Awdurdod a'r Heddlu.

Hyd a lled y Cynllun

9. Mae gweithdrefnau gweithredol yn Uned Gefnogi'r Heddlu yn Wylfa, Ynys Môn, yn cynnwys Memorandwm o Ddealltwriaeth gyda Heddlu Gogledd Cymru. Swyddogion yr heddlu yn unig sydd yn Uned Gefnogi'r Heddlu yn Wylfa ac nid oes manylion ffigurau defnydd ar gyfer Unedau unigol. O fewn Unedau Cefnogi'r Heddlu, mae'r gwasanaeth heddlu rhanbarthol yn cadw'r hawl cyntaf o ran gweithredu a gall swyddogion yr Heddlu ddarparu ymateb cyntaf lle bo digwyddiad o fewn eu hawdurdodaeth. Os oes person yn cael ei gymryd i'r ddalfa bydd cyfundrefn ffurfiol sy'n nodi dewis iaith y person yn y ddalfa yn cael ei chytuno â Heddlu Gogledd Cymru. Mae hyn yn galluogi proses y llys i gydymffurfio â'r dewisiadau iaith sydd ar gael.
10. Mae Cynllun yr Awdurdod yn berthnasol i gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Y rhaniad ar gyfer y busnes yw rhwng ymagweddiad corfforaethol ac ymagweddiad lleol.
 - a. Mae'r ymagweddiad corfforaethol yn berthnasol i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru a chynhyrchu gwybodaeth gorfforaethol.
 - b. Mae'r ymagweddiad lleol yn canolbwyntio ar dueddiadau, recriwtio swyddogion a gohebiaeth cyfranddeiliaid ar gyfer yr Uned Gefnogi yn Wylfa.

CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETH

Polisiâu a Mentrau Newydd

11. Mae'r Awdurdod yn ymgymryd ag asesu canlyniadau ieithyddol polisiâu a mentrau newydd wrth eu ffurfio a sicrhau bod polisiâu a mentrau newydd yn gyson â Chynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod ac nad ydynt yn ei danseilio.

Darparu Gwasanaethau

12. Wrth ddarparu ein gwasanaeth plismona, yr ydym yn cydnabod bod gan y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg sy'n dod i gysylltiad â'r heddlu yr hawl i dderbyn gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd ymagweddiad lleol ar gyfer yr Uned Gefnogi yn Wylfa a rhoir gwybod am y Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd swyddogion yr heddlu sy'n cael eu hanfon i'r Uned Gefnogi'r Wylfa yn parchu hawliau siaradwyr Cymraeg. Bydd canllawiau a chyfarwyddiadau manwl ar gael i'r rhai hynny a allai fod ag angen gweithredu mesurau'r iaith Gymraeg. Codir ymwybyddiaeth swyddogion yr heddlu a staff o'r sefyllfa ieithyddol yng Nghymru a'u cyfrifoldebau o dan y Cynllun.
13. Ar hyn o bryd, mae'r arwydd 'Heddlu' ar y cerbydau'n unig. Bydd arwyddion dwyieithog 'Police' a 'Heddlu' ar gael ar gyfer eitemau gwisg swyddogol allanol y swyddogion ac ar gyfer adeilad yr heddlu yn Wylfa. Yn Wylfa, bydd pob dull o adnabod aelod o'r heddlu, megis cardiau gwarant, bathodynneu enw a chardiau busnes yn ddwyieithog i gadarnhau'r gefnogaeth y mae'r sefydliad yn ei roi i ddwyieithrwydd. Yn ogystal, bydd swyddogion yr heddlu yn Wylfa yn cael bathodynneu generig yn cyfleu eu hyfedredd ieithyddol.

Safonau Ansawdd

14. Mae'r Awdurdod yn ymgymryd â darparu gwasanaeth o'r un ansawdd uchel yn y ddwy iaith wrth gynnal ei fusnes cyhoeddus yng Nghymru. Er mwyn sicrhau ansawdd y gwaith cyfieithu a wneir dros y sefydliad, mae'n rhaid i bob cyfieithydd/cyfieithydd ar-y-pryd fod yn aelod o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

DELIO Â'R CYHOEDD CYMRAEG

Gohebiaeth Ysgrifenedig

15. Mae'r Awdurdod yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg fel yn y Saesneg ac yn addo y bydd gohebiaeth Gymraeg a ddaw i law yn cael ei hateb yn Gymraeg a bydd gohebiaeth ddwyieithog yn cael hateb yn ddwyieithog. Ein nod yw anfon ateb sylweddol, neu ateb byr, dros dro, o fewn 20 diwrnod gwaith pa un ai yw'r ohebiaeth yn y Saesneg neu'r Gymraeg.
16. Os nad oes materion o frys arbennig yn newid y sefyllfa, cychwynnir gohebiaeth a'i pharhau trwy gyfrwng y Gymraeg gyda'r rhai hynny a fynegodd y buasai'n well ganddynt gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yr iaith ddewisol yn cael ei chofnodi i ddibenion monitro.
17. Bydd cylchlythyrau a llythyrau safonol y mae'r sefydliad yn eu paratoi ar gyfer y boblogaeth leol yng nghyffiniau'r Wylfa yn ddwyieithog.

Cyfathrebu ar y Ffôn

18. Gan mai yn Sir Gaer y mae canolfan yr Awdurdod a phencadlys yr heddlu yn Sir Rhydychen, y nesaf peth i ddim o alwadau ffôn Cymraeg a dderbynia staff yr heddlu a swyddogion. Yn Uned Wylfa, bydd swyddogion yn cael eu hannog i ateb y ffôn â chyfarchiad dwyieithog unwaith y bydd y lefel briodol o'r Cynllun Dysgu Cymraeg wedi cael ei gwblhau.

Cyfarfodydd Cyhoeddus

19. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod croeso i aelodau o'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus a digwyddiadau cyffelyb a gynhelir yng Nghymru i wneud eu cyfraniadau trwy gyfrwng y Gymraeg a bydd yn eu galluogi i wneud hynny. Bydd gwahoddiadau a chyhoeddusrwydd i ddigwyddiad yng Nghymru yn gwahodd y rhai sy'n mynychu ac yn dymuno siarad Cymraeg i roi gwybod i'r sawl sy'n trefnu'r digwyddiad ymlaen llaw fel y gellir trefnu cyfleusterau cyfieithu-ar-y pryd.

Cyfarfodydd Eraill gyda'r Cyhoedd.

20. Cymharol ychydig o gyfarfodydd y mae'r Awdurdod yn eu cynnal yng Nghymru. Bydd rhingyll perthnasol yr Heddlu yn mynychu Grŵp Cyfranddalwyr Safle y mae gweithredwr y safle yn ei drefnu a bydd cyfarfodydd pellach o natur un i un yn aml yn cael eu cynnal ar fyr rybudd. Ble bynnag y bo'n ymarferol, os caiff wybod cyn cyfarfod cyhoeddus bod yn well gan gyfranogwyr siarad Cymraeg, bydd yr Awdurdod yn paratoi yr hyn sydd yn angenrheidiol er mwyn iddynt gael siarad Cymraeg.

Delio â'r Cyhoedd mewn Ffyrdd Eraill

21. Gellir defnyddio dulliau eraill o gyfathrebu â'r cyhoedd yng Nghymru megis e-bost a gwefannau.
22. Mae'r Awdurdod yn croesawu gohebiaeth e-bost yn y Gymraeg fel yn y Saesneg ac yn addo y bydd gohebiaeth Gymraeg a ddaw i law trwy e-bost yn cael ei hateb yn Gymraeg. Ein nod yw anfon ateb sylweddol, neu ateb byr, dros dro, o fewn 20 diwrnod gwaith pa un ai yw'r ohebiaeth yn y Saesneg neu'r Gymraeg. Ble bo'n ymarferol, bydd gohebiaeth drwy e-bost yn cael ei chychwyn a'i pharhau trwy gyfrwng y Gymraeg gyda'r rhai hynny sy'n mynegi mai dyma fyddai orau ganddynt.

EIN HWYNEB CYHOEDDUS

Gwefan

23. Bydd yr Awdurdod yn gwneud defnydd priodol o'r rhyngwrwd wrth gyflawni ei ymrwymadau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg a bydd yn sicrhau bod defnyddiau Cymraeg gyda mynediad rhwydd atynt ar safleoedd yr Awdurdod a'r Heddlu. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod y canlynol, o leiaf, yn ymddangos naill ai ar wefan yr Awdurdod neu un yr Heddlu, fel y bo'n briodol:
 - Cyflwyniad i'r Awdurdod a'r Heddlu yn Gymraeg;
 - Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod (yn y Gymraeg a'r Saesneg);
 - Y Cynllun Plismona Blynyddol (yn y Gymraeg a'r Saesneg);
 - Pan fo fersiwn Gymraeg wedi'i hargraffu a phan fo fersiwn gyfatebol Saesneg ar wefan yr Awdurdod hefyd, yna gwneir yn siwr bod y fersiwn Gymraeg yn cael ei rhoi ar y wefan;
 - Ein dyhead yn y pendraw yw datblygu gwefan ddwyieithog.

Datganiadau i'r Wasg

24. Pan fo amseriad datganiadau i'r wasg yn caniatáu, bydd y datganiadau hynny sydd o ddiddordeb arbennig i'r cyhoedd Cymraeg ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd datganiadau a chyhoeddiadau i'r wasg a ryddheir yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog.

Defnyddiau cyhoeddusrwydd, ymgyrchu a hysbysebu

25. Bydd yr Awdurdod yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynllunio ei strategaethau cyhoeddusrwydd a'i ymgyrchoedd hysbysebu. Byddwn yn cwrdd ag anghenion y cyhoedd Cymraeg eu hiaith fel a ganlyn:
 - Defnyddiau cyhoeddusrwydd sy'n benodol ar gyfer cynulleidfa Gymraeg yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.
 - Hysbysebion a roir mewn papurau newydd sy'n cael eu dosbarthu yn gyfangwbl neu'n bennaf yng Nghymru i fod yn ddwyieithog; yn y Gymraeg yn unig y bydd angen hysbysebion a roir mewn cyhoeddiadau Cymraeg.
 - Bydd arddangosfeydd sefydlog a byrddau arddangos gwybodaeth gyhoeddus yn ddwyieithog. Er mwyn rhoi

Arwyddion cyhoeddus, swyddogol a hysbysebion recriwtio staff yng Nghymru

26. Pan gaiff arwyddion swyddogol yr Awdurdod Heddlu eu gosod mewn man cyhoeddus yng Nghymru, bydd y rhain yn ymddangos yn y Gymraeg a'r Saesneg wrth ymyl ei gilydd a byddant yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, amlygrwydd a pha mor ddarllenadwy ydynt, boed hynny yn y wasg, ar hysbysfyrddau neu rywle arall.
27. Bydd pob hysbyseb recriwtio a roir yn y wasg yng Nghymru yn ddwyieithog ac yn cynnwys y datganiad, "Rydym yn croesawu ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg".
28. Bydd cyfarwyddiadau mewn perthynas a'r gofynion uchod yn cael eu dosbarthu i bob aelod o staff sy'n gyfrifol am roi arweiniad ar y materion hyn; bydd y cyfarwyddiadau hyn ar y fewnwyd.

Ffurflenni

29. Mae'r Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil wedi ymrwmo i argraffu'n ddwyieithog bob ffurflen heddlu sydd at ddefnydd y cyhoedd, gan ffafrio un ddogfen ddwyieithog neu, pan fo hynny'n briodol, fersiynau Saesneg a Chymraeg ar wahân. Bydd y rhai hynny'n cael eu cyhoeddi ar yr un pryd a'r un mor hawdd cael gafael arnynt, yn cael eu dosbarthu gyda'i gilydd ac yn cario neges yn dweud, "This (form) is also available in (Welsh)" a "Mae'r (ffurflen hon) ar gael hefyd yn (Saesneg)". Bydd canllawiau ysgrifenedig yn cael eu darparu ar gyfer staff ac eraill sy'n ymwneud â dylunio a chynhyrchu ffurflenni.

GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

Trefniadau Gweinyddol

30. Cyfarwyddwr Gweithredol yr Awdurdod sy'n gyfrifol am gyd-drefnu'r Cynllun. Mae'r cyfrifoldeb am weithredu'r mesurau sydd yn y Cynllun o ddydd i ddydd ar y Swyddog Amrywiaeth mewn cydweithrediad a'r Rhingyll Cefnogi Uned yn Wylfa.
31. Mae crynodeb o gyfrifoldebau ac amserlen ar gyfer gweithredu wedi cael eu llunio ac yn ffurfio rhan o'r Cynllun hwn.

Monitro

32. Bydd yr Awdurdod yn casglu gwybodaeth yn flynyddol ar:
 - gyfarfodydd cyhoeddus pan oedd cyfieithwyr ar-y-pryd i'r Gymraeg ar gael;
 - y nifer o eitemau gohebiaeth yn y Gymraeg a dderbyniwyd gan y sefydliad drwyddo draw;
 - disgrifiad o ddefnyddiau a gyhoeddwyd yn y Gymraeg naill ai yn eu cyfanrwydd, yn rhannol neu ar ffurf crynodeb;

- polisïau neu fentrau y daeth y Gymraeg yn rhan hanfodol ohonynt neu sy'n dangos bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i anghenion siaradwyr Cymraeg;
- hyfforddiant mewn medrau yn yr iaith Gymraeg yn Uned Gefnogi'r Wylfa;
- hysbysebion recriwtio'n cael eu paratoi'n ddwyieithog;
- nifer neu natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau mewn perthynas a'r gwasanaeth y mae'r Awdurdod a'r Heddlu yn ei ddarparu yn y Gymraeg a'r camau a gymerwyd o ganlyniad.

33. Bydd yr Awdurdod yn darparu adroddiad blynyddol ar ei Gynllun Iaith Gymraeg i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar ffurf sy'n dderbyniol iddo. Bydd yr adroddiad yn disgrifio'r cynnydd mewn gweithredu'r mesurau yn y Cynllun mewn perthynas â'r amserlen a'r safonau a gafodd eu cymeradwyo a bydd yn dadansoddi nifer a natur cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwelliant a dderbynnir gan y cyhoedd.

Hyfforddiant Dysgu Cymraeg

34. Er mwyn darparu gwasanaethau plismona effeithlon ac effeithiol ar safle'r Grŵp Niwclear Prydeinig yn Wylfa, Ynys Môn, mewn cydweithrediad â Heddlu Gogledd Cymru, mae gofyn rhoi cyfle i swyddogion unigol yr Heddlu i ddysgu Cymraeg ar lefel sylfaenol. Mae'r adnoddau sydd ar gael yn cynnwys adnodd dysgu rhyngweithiol wedi'i baratoi gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a mynediad at Gyngorydd yr Iaith Gymraeg yn Heddlu Gogledd Cymru. Gan mai ar raddfeydd symudol y mae mwyafrif swyddogion yr Heddlu, nid yw'n ymarferol i ddechrau gosod gwybodaeth o'r iaith Gymraeg fel Amod Cyflogaeth. Fodd bynnag, dylai mabwysiadu lefel gwybodaeth sylfaenol o'r iaith Gymraeg i alluogi darparu lefel dda o wasanaeth a chydabyddiaeth o sefyllfa leol gael ei ystyried fel rhan o'r broses Adolygu Datblygiad Perfformiad ar gyfer swyddogion yn yr Uned Gefnogi yn Wylfa.

Cynllun Gweithredu a Chyfrifoldebau

35. Mae'r Cynllun Gweithredu a ganlyn yn nodi camau gweithredu i'w rhoi i'r Awdurdod Heddlu i'w cymeradwyo wrth symud ymlaen i weithredu'r argymhellion yn y cynllun hwn:

Cam	Dyddiad Targed	Cyfrifoldeb
Sefydlu cyfundrefn ffurfiol gyda Heddlu Gogledd Cymru yn dangos y dewis iaith ar gyfer unigolion sy'n cael eu harestio (Cyf. Para 9)	Tachwedd 2007	Rheolwr Uned Reoli Sylfaenol y Gogledd
Asesu effaith ieithyddol polisïau a mentrau newydd, dewis a gweithredu ar ffurf priodol (Cyf. Para 11)	Ionawr 2008	Swyddog Amrywiaeth
Dechrau cyflwyno hyfforddiant sy'n codi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg wrth anwytho Swyddogion yr Heddlu sy'n gwasanaethu yn Wylfa. Datblygu cyfleoedd i Swyddogion yr Heddlu sy'n gwasanaethu yn Wylfa i	Ionawr 2008	Swyddog Amrywiaeth/ <u>Canolfan Hyfforddi Heddlu</u>

ddysgu Cymraeg (Cyf. Para 12)		
Sicrhau bod pob arwydd heddlu yn Wylfa'n ddwyieithog. (Cyf. Para 13)	Ebrill 2008	Rheolwr Uned Reoli Sylfaenol y Gogledd
Penodi asiantaeth gyfieithu Gymraeg gydnabyddedig ar gyfer ymatebion ysgrifenedig a chyfieithu'r Cynllun ar unwaith. (Cyf. Para 15)	Tachwedd 2007	Cyfathrebu
Sefydlu adran yr iaith Gymraeg ar gyfer gwefan yr Awdurdod/yr Heddlu i arddangos y Cynllun yn ystod y cyfnod ymgynghori ac er mwyn cadw dogfennaeth ddwyieithog bellach. (Cyf. Para 23)	Hydref 2007	Cyfathrebu
Comisiynu arddangosfa a gwybodaeth gyhoeddus ddwyieithog ar gyfer Canolfan Ymwelwyr yr Wylfa. (cyf. Para 25)	<u>Ebrill 2008</u>	Cyfathrebu
Adolygu dogfennaeth recriwtio ar gyfer hysbysebu swyddi gwag yng Nghymru. (Cyf. Para 27)	Rhagfyr 2007	Recriwtio/ Adnoddau Dynol
Sicrhau bod modd edrych ar y wybodaeth hon ar y fewnwyd a threfnu ymgyrchoedd priodol i godi ymwybyddiaeth am y ddarpariaeth hon. (Cyf. Para 28)	Parhaus	Swyddog Amrywiaeth
Sefydlu gweithdrefn gwyno ac awgrymiadau ar gyfer darparu gwasanaethau yn y Gymraeg. (Cyf. Para 32)	<u>Ionawr 2008</u>	Swyddog Amrywiaeth
Dechrau gweithredu cyfundrefn fonitro i fesur faint o gyfathrebu dwyieithog sydd yna. Adroddir ar hyn yn yr adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Darparu adroddiad blynyddol yn disgrifio'r broses a'r mesurau a gymerwyd ym mlwyddyn gyntaf y Cynllun. (Cyf. Para 32)	Ionawr 2008 Ebrill 2009	Swyddog Amrywiaeth

Atodiadau:

- A. **Canllawiau ar ba ddogfennau a ddylai fod yn ddwyieithog (neu yn y Gymraeg ac yn Saesneg).**
- B. **Enghreifftiau o lefelau'r iaith Gymraeg. Mae'r ddwy lefel gyntaf yn berthnasol ar gyfer dysgu dechreuol yn Uned Gefnogi Wylfa.**
- C. **Canllawiau ar gyfer cynnal cyfarfod cyhoeddus yn effeithiol.**

Atodiad A

Canllawiau ar ba ddogfennau ddylai fod yn ddwyieithog (neu yn y Gymraeg a'r Saesneg)

Eitemau Categori A: i fod yn ddwyieithog (neu yn y Gymraeg a'r Saesneg)

Hysbysebion	Llenyddiaeth recriwtio
Llyfrynnau	Ffurflenni a phe cynnau cais am swydd
Pamffledi	Cylchlythyrau ar gyfer y cyhoedd
Ffurflenni i'r cyhoedd	Holiaduron/ arolygon ar gyfer y cyhoedd
Eitemau i'w harddangos yn gyhoeddua e.e. sticeri, poster, tocynnau adnabod, rhybuddion	Agendae a chofnodion Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddlu
Adroddiadau blynyddol	Bwletinau a datganiadau ystadegol er gwybodaeth
Papurau Awdurdod yr Heddlu	Cardiau busnes
Agendae a chofnodion Cyfarfodydd Awdurdod yr Heddlu	Dogfennau ymgynghorol ar gyfer y cyhoedd
Llythyrau safonol	Arddangosfeydd ar gyfer y cyhoedd
Deunyddiau cyhoeddusrwydd	

Eitemau Categori B: eitemau fydd o bosibl yn ddwyieithog gan ddiwyddu ar yr amgylchiadau

Newyddlenni mewnol	Cyflwyniadau
Papurau ymchwil	Strategaethau
Adroddiadau	Atodiadau i bapurau Awdurdod yr Heddlu
Dogfennau ymgynghorol, mewnol	Cylchlythyrau
Datganiadau i'r wasg	

Eitemau Categori C: fel arfer mewn un iaith

Cyfrifon (onibai eu bod yn rhan o adroddiadau blynyddol)	Gwybodaeth fewnol sy'n cael ei chyhoeddi'n fewnol o dan Ryddid Gwybodaeth
Tafenni gan gyrff neu unigolion eraill sy'n cael eu dosbarthu mewn cynadleddau	Gwaith drafft
Dogfennau contract (heblaw rhai ar gais neu mewn sefyllfaedd penodol)	Dogfennau mewnol
Gwybodaeth archif neu hanesyddol	

Rhai canllawiau

Ystyriaethau		
Cynulleidfa darged	Aelodau o'r cyhoedd lle mae'r galw am ddefnyddiau Cymraeg yn wybyddus ac wedi'i sefydlu Categori A	Arbenigwyr o fewn sectorau neu sectorau penodol lle mae isafswm galw am ddefnyddiau Cymraeg Categori C
A fydd y ddogfen yn cael ei rhannu neu ei thrafod yn fewnol gan sefydliadau eraill?	Bydd Categori A	Na fydd Categori C
Galw/ diddordeb tebygol gan y cyhoedd neu nifer uchel o siaradwyr Cymraeg ymhlith y rhai sy'n ymdiddori	Llawer o ddiddordeb (ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol yng Ngogledd Cymru neu o ddiddordeb arbennig i siaradwyr Cymraeg) Categori A	Ychydig o ddiddordeb (grwpiau arbenigol) Categori C
Statws allanol/ proffil	Oes Categori A	Nac oes Categori C

Categori A – Bydd a dylai'r dogfennau hyn fod yn ddwyieithog

Categori B – Efallai y bydd y dogfennau hyn yn ddwyieithog

Categori C - Saesneg yn unig ar hyn o bryd

Sylwer: Mae'n anochel na fydd yr uchod yn cwmpasu pob math o ddogfen. Dylai staff ddefnyddio synnwyr o'r hyn sy'n briodol wrth sicrhau eu bod yn dewis categori addas ar sail gymharol wrth asesu a ddylai eitemau fod yn ddwyieithog ai peidio. Os oes unrhyw ansicrwydd, dylid gofyn am gymorth y Swyddog Amrywiaeth.

Atodiad B

Uned Gefnogi'r Wylfa

Ar y dechrau, bydd y ffocws ar gyflawni Lefelau 1 a 2 wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn Uned Gefnogi, Wylfa. Bydd hyfforddiant medrau lefel uwch yn cael ei ddarparu ar gyfer swyddogion fydd yno am gyfnod arwyddocaol.

	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5
Mewn swyddfa	Yn gallu ynganu enwau lleoedd, enwau bedydd pobl neu arwyddion Cymraeg yn gywir. Yn gallu adnabod adrannau/ lleoliadau/ lefelau swyddogion yn Gymraeg. Yn gallu cyfarch a chyflwyno eraill yn y Gymraeg.	Yn gallu deall hanfodion sgwrs yn y Gymraeg. Yn gallu cyfleu gwybodaeth sylfaenol e.e. tasgau gweinyddol syml neu rai dydd i ddydd.	Yn gallu deall llawer yn y swyddfa neu mewn cyfarfodydd. Yn gallu derbyn a chyfleu negeseuon y bydd yn debygol y bydd yn rhaid ymateb iddynt yn ystod diwrnod gwaith arferol.	Yn gallu cyfrannu'n effeithiol i gyfarfodydd oddi mewn i'w faes gwaith personol ac yn gallu dadlau dros neu yn erbyn achos.	Yn gallu cyfweld ymgeiswyr Cymraeg am swyddi ac asesu eu haddasrwydd.
Dyletswyddau swyddog Heddlu	Yn gallu dangos cwrteisi ieithyddol trwy ddechrau sgwrs neu ei chloi. Yn gallu rhoi a derbyn manylion personol. Yn gallu ynganu enwau lleoedd, enwau bedydd pobl neu arwyddion Cymraeg yn gywir.	Yn gallu deall hanfodion cais gan y cyhoedd ac ymateb i geisiadau syml. Yn gallu rhoi a derbyn cyfarwyddiadau syml.	Yn gallu sgwrsio'n rhannol yn y Gymraeg ond yn troi i'r Saesneg mewn trafodaeth neu i roi gwybodaeth fanwl. Yn gallu disgrifio pobl a <u>lleoliadau</u> .	Yn gallu delio â'r cyhoedd yn Gymraeg yn y mwyafrif o sefyllfaoedd ond yn troi i'r Saesneg wrth ddefnyddio geirfa dechnegol neu eirfa berthynasol i waith yr heddlu.	Yn gallu delio'n effeithiol ag ymholiadau cymhleth gan y cyhoedd neu ddadleuon yn Gymraeg. <u>Yn gallu cynnal cyfweiliad</u> neu holi yn Gymraeg <u>tra</u> 'n cynnal ymchwiliad.
Gorsaf yr	Yn gallu cyfarch yn	Yn deall ceisiadau	Yn gallu ymateb i	Yn gallu delio ag	Yn gallu delio ag

Heddlu/ ar y ffôn	ddwyieithog mewn ffordd addas i'r lleoliad. Yn gallu cyfarch ymwelwyr a'u galluogi i ddewis iaith.	am gymorth ac ymateb yn Gymraeg i geisiadau syml. Yn gallu defnyddio'r Gymraeg i drosglwyddo galwadau.	yhmoliadau cyffredinol ar y ffôn a wyneb yn wyneb. Yn gallu nodi manylion neu wneud nodiadau o sgwrs Gymraeg.	yhmoliadau'n effeithiol. Yn gallu deall gwahaniaethau tafodieithol.	yhmoliadau sensitif neu gymhleth neu gwynion gan y cyhoedd a delio'n hyderus â chwestiynau gelyniaethus.
Cyfarfodydd Cyhoeddus a siarad â'r Wasg	Yn gallu dechrau a gorffen cyfarfod a chroesawu <u>cyfranogwyr yn ddwyieithog</u> .	Yn gallu cyflwyno'i hunan neu eraill yn ôl enw, swyddogaeth, rôl a lleoliad/ sefydliad. Yn gallu cyfrannu'n rhannol i gyfarfod yn y Gymraeg.	Yn gallu sgwrsio neu wneud cyflwyniad yn rhannol yn y Gymraeg ond yn troi i'r Saesneg wrth drafod manylion busnes creiddiol, ateb cwestiynau neu ddefnyddio gwybodaeth gymhleth.	Yn gallu cadeirio cyfarfod <u>ac ymateb</u> i gwestiynau yn Gymraeg. Yn gallu disgrifio sefyllfa neu ddigwyddiad yn Gymraeg ond yn troi i'r Saesneg am dermau technegol neu rai perthnasol i'r heddlu.	Yn gall gwneud cyflwyniadau yn y Gymraeg. <u>Yn gallu ateb</u> cwestiynau cymhleth neu elyniaethus yn Gymraeg i'r graddau y mae ei wybodaeth arbenigol angenrheidiol ef neu hi yn caniatáu.
Ysgrifennu	Yn gallu ysgrifennu cais syml, dydd i ddydd ar gyfer cydweithiwr, fel ' Os gwelwch yn dda, ydw i eisiau...'	Yn gallu ysgrifennu nodyn cais byr i gydweithiwr neu gyswllt allanol y mae'n ei adnabod.	Yn gallu ysgrifennu nodiadau atgoffa anffurfiol, memo mewnol a negeseuon e-bost a delio â cheisiadau arferol.	Yn gallu ysgrifennu llythyrau busnes, negeseuon e-bost a phosteri ar gyfer cwsmeriaid allanol gyda chymorth golygyddol.	Yn gallu ysgrifennu adroddiadau a chyflwyniadau a gwneud nodiadau llawn a chywir mewn cyfarfod.

Atodiad C

Cyfarfodydd Cyhoeddus

Mae cynnal cyfarfodydd cyhoeddus yn effeithiol, naill ai'n ddwyieithog neu trwy gyfrwng y Gymraeg, yn galw am flaen gynllunio a threfniadaeth gyd-drefnus. Nid yw sicrhau cyfleusterau cyfieithu ar-y-pryd ynddo'i hun yn gwarantu y bydd cyfarfod dwyieithog yn cael ei gynnal yn effeithiol.

Er mwyn sicrhau bod pob adran ac unigolyn oddi mewn i'r sefydliad yn ymwybodol o'r gofynion wrth drefnu neu gynnal cyfarfodydd cyhoeddus, rydym yn argymhell bod canllawiau priodol yn cael eu rhoi i staff a swyddogion mewn perthynas â gweinyddu cyfarfodydd dwyieithog, sef:

- Ymrwymiad i gynnal cyfarfodydd dwyieithog a hwyluso defnydd o'r Gymraeg
- Ymrwymiad i sicrhau bod dogfennaeth mewn perthynas â'r cyfarfod yn Gymraeg
- Ymrwymiad i sefydlu ymlaen llaw beth yw dewis iaith rhai sy'n mynychu cyfarfod
- Gweithdrefnau wedi cael eu sefydlu i sicrhau bod offer cyfieithu ar-y-pryd yn cael ei ystyried wrth fwcio ystafell a phob adnodd arall yn cael ei sicrhau cyn y cyfarfod
- Amlinellu swyddogaeth a chyfrifoldebau'r sawl sy'n trefnu'r cyfarfod
- Camau'n cael eu cymryd i asesu'r angen am staff sy'n siarad Cymraeg i fynychu cyfarfodydd i rwyddhau'r ffordd ar ei gyfer
- Amlinellu swyddogaeth y Cadeirydd wrth hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg
- Amlinellu swyddogaeth y Cyfieithydd ar-y-pryd wrth alluogi defnydd o'r Gymraeg
- Pethau i'w hystyried wrth ddewis siaradwyr ar gyfer cyfarfodydd neu ddigwyddiadau dwyieithog;
 - * Dulliau o wneud gwaith y cyfieithydd yn haws
 - * Canllawiau ar ddefnyddio offer cyfieithu